Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Mynd i'r afael â rhwystrau gweinyddol

*Egluro trefniadau a disgwyliadau ar gyfer defnyddio adnoddau cynnwys y cyhoedd a pholisïau talu*

Mai 2021

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

# Nodau

- Datblygu canllawiau i gynorthwyo sefydliadau sy’n cefnogi ymchwil i greu polisïau ar gyfer talu am gynnwys y cyhoedd mewn ffordd sy’n briodol, yn hyblyg ac yn unol â rheolau a rheoliadau cyfredol.

- Ceisio cymeradwyaeth (neu debyg) CThEM ac adrannau eraill perthnasol y Llywodraeth i’r canllawiau.

- Datblygu deunyddiau ar gyfer y cyhoedd sy’n esbonio’r materion dan sylw a’r hyn y gall cyfranogion cyhoeddus ei ddisgwyl pan gynigir tâl iddyn nhw i’w gwobrwyo neu eu cydnabod am gymryd rhan.



# Amcanion



- Datblygu datganiad sy'n amlinellu'r disgwyliad bod gan sefydliadau sy'n cefnogi ymchwil bolisïau priodol ar waith i alluogi talu'n effeithiol ac yn brydlon cyfranogion cyhoeddus sy'n cael eu cynnwys mewn ymchwil.
- Cael cefnogaeth ar draws sefydliadau i'r datganiad hwn, gan gynnwys arweinwyr polisi, arianwyr ymchwil mawr, rheoleiddwyr ymchwil, prifysgolion sy'n bartneriaid a chyrff perthnasol eraill.
- Cwblhau ymarfer 'categoreiddio' cynnwys, gan gynrychioli'r sbectrwm o weithgareddau cynnwys y cyhoedd a'r goblygiadau cysylltiedig tebygol o ran treth a chyflogaeth.
- Creu dogfen ganllawiau sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth ymarferol i sefydliadau sy'n cefnogi ymchwil ar roi polisïau talu ar waith sy'n gyson â'r dehongliad o rwymedigaethau treth a chyflogaeth perthnasolities.
- Gweithio gyda CThEM i geisio cymeradwyaeth (neu debyg) o'r enghreifftiau o 'gategorïau' gweithgareddau cynnwys a'r goblygiadau o ran treth a chyflogaeth fel bod sefydliadau sy'n cefnogi ymchwil yn gallu ymddiried yn y canllawiau o ran eu cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau.


Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales




- Datblygu cynllun prosiect
- Llunio'r llythyr eglurhaol / datganiad terfynol
- Ailddrafftio'r canllawiau ymarferol ar sail adborth y Gweithgor
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Fforwm Pobl a Chymunedau'r Corff Hyd Braich, sy'n gefnogol i'r gwaith hwn

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales





- Adborth oddi wrth y gymuned ynglŷn â faint o her yw hyn – o siarad gydag arweinwyr cynnwys y cyhoedd, ymchwilwyr a chyfranogion cyhoeddus ledled Cymru a hefyd oddi wrth gydweithwyr yn y DU a dderbyniodd adborth yn sgil lansio canllawiau talu'r NIHR o'r newydd

- Bu 5 grŵp cenedlaethol yn trafod yr angen am ymgysylltu ag arweinwyr a rheolwyr ar lefelau amrywiol ar draws sefydliadau er mwyn cael newid go iawn

- Rydyn ni hefyd wedi nodi grwpiau eraill sy'n canolbwyntio gwaith ar y mater hwn ac rydyn ni'n gweithio ar ddod yn bartneriaid â nhw i gydweithio ar y datrysiad a sicrhau'r effaith fwyaf bosibl (grŵp elusennau a fforwm y Corff Hyd Braich)

- Cymru – yn edrych am y grwpiau/ cysylltiadau mwyaf priodol i gysylltu â nhw o safbwynt Prifysgolion ar y gwaith hwn

- Mae datblygiadau'n golygu bod yr amserlen hon wedi newid rhyw fymryn, i'n galluogi i ymateb i'r adborth newydd/ cryfach ar y mater dan sylw, i sicrhau bod modd cyflenwi'r gwaith hwn i gael y gwerth mwyaf posibl wrth roi sylw i'r materion hyn

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

# Y camau nesaf

- Ehangu'r gweithgor i wahodd cydweithwyr Adnoddau Dynol a Chyllid o Brifysgolion i gydweithio ar y canllawiau
- Rhannu'r ddogfen ganllawiau er mwyn cael sylwadau o ledled y gymuned yng Nghymru ac mewn mannau eraill i sicrhau bod enghreifftiau perthnasol o gynnwys yn cael eu cipio a bod y ddogfen yn ddefnyddiol
- Gwneud ymarfer 'categoreiddio cyfranogion cyhoeddus'
- Ymgysylltu â CThEM
- Sicrhau ein bod yn dwyn sylw at y cyfleoedd i gysylltu hyn â Strategaeth Ymchwil Glinigol y DU, sydd â ffocws ar gynnwys y cyhoedd o fewn y cynlluniau gweithredu sy'n datblygu



Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

# Diolch yn fawr